# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fioamrywiaeth

**Dydd Mercher 11 Mawrth 2015, 12.15 - 13.30**

Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Llyr Huws Gruffydd AC (LlG) | Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol |
| Jocelyn Davies | Aelod Cynulliad |
| Alun Ffred Jones | Aelod Cynulliad |
| Rosanna Raison (William Powell AC) | Ymchwilydd a Swyddog y Cyfryngau |
| Russel Hobson | Cadeirydd Gwarchod Gloÿnnod Byw/ Grŵp Defnydd Tir a Bioamrywiaeth Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Nigel Ajax-Lewis | Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru |
| James Byrne | Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| Raoul Bhambral | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Clare Reed | Cyswllt Amgylchedd Cymru / Cymdeithas Cadwraeth y Môr |

## 1. Croeso gan y Cadeirydd, Llyr Gruffydd AC

Croesawyd LlG yr aelodau i'r cyfarfod ac eglurodd mai ffocws y cyfarfod oedd trafodaeth agored ynghylch cyfeiriad nesaf y grŵp, gyda Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp yn dilyn.

## 2. Trafodaeth

Dechreuodd LlG drwy atgoffa'r cyfarfod o'r ffaith ei fod hefyd yn cadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Gwledig. Mae'r grŵp hwnnw wedi canolbwyntio ar ddeddfwriaeth, wedi gwahodd Gweinidogion i siarad ag ef, ac wedi rhoi cyflwyniadau ysgrifenedig i Weinidogion am effaith deddfwriaeth ar gymunedau gwledig.

Awgrymwyd y gallai'r grŵp hwnnw helpu i edrych ar Fil yr Amgylchedd ac ystyried bylchau yn y ddeddfwriaeth neu ddiffyg ei gweithredu, yn ogystal ag integreiddio rhwng Biliau.

Canlyniadau:

- Cynnal cyfarfod y gwanwyn ym mis Mai/Mehefin i ystyried deddfwriaeth i’r dyfodol, e.e. Bil bywyd gwyllt.
- Ystyried yr hyn sy'n digwydd mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill, a gwahodd pobl i gynrychioli Grwpiau Trawsbleidiol yn y gweinyddiaethau eraill, e.e. yr Alban, gan ofyn am gyflwyniadau 10 munud ar sut maent yn gweithio.
- Mis Hydref – y cysylltiad morol, i edrych ar y ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth bresennol a'r hyn nad yw'n cael ei weithredu

Camau gweithredu ar gyfer RB / Scott Fryer

- Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf - POB UN i'w gynnal am 12.15 – 13.15 yn Ystafell Gynadledda C (llawr gwaelod, dim angen hebryngydd) ddydd Mawrth 9 Mehefin, ddydd Mercher 21 Hydref, a dydd Mercher 3 Chwefror (CCB)
- Trefnu siaradwyr ar gyfer mis Mai/Mehefin a mis Hydref ar gyfer sesiwn amser cinio

## 3. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Agorodd LlG y llawr i enwebiadau ar gyfer rôl yr Ysgrifennydd. Nodwyd Cyswllt Amgylchedd Cymru, a fydd yn parhau i ddarparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grŵp.
Russel Hobson yw'r person cyswllt, rhobson@butterflyconservationwales.org.uk.

Yna agorodd LlG y llawr i enwebiadau ar gyfer rôl y Cadeirydd. Cafodd LlG ei enwebu gan JB, gydag AFfJ yn eilio. Cafodd LlG ei ethol yn Gadeirydd eto.